
# Eich Llais, Eich Rhyl

## Adroddiad digwyddiad ymgysylltiad cymunedol

Ionawr 2026








Sefydliad Cymunedol Cymru

THE neumark FOUNDATION

# Cyflwyniad



Mewn Clwb Rygbi'r Rhyl ym mis Hydref 2025, dywedwyd wrth dros 100 o fynychwyr, gan gynnwys cyflogwyr, cyllidwyr, elusennau, cynrychiolwyr lleol, addysgwyr a Phrif Weinidog Cymru am ein huchelgeisiau i helpu i wella cyfleoedd bywyd pobl ifanc y Rhyl.

I roi hyn mewn cyd-destun, mae gan Orllewin y Rhyl rai o'r lefelau uchaf o amddifadedd yn y DU, gan gynnwys diweithdra, incwm isel a chanlyniadau addysgol gwael. Mae diweithdra yn 43% o'i gymharu â 16% yng ngweddill Cymru. Mae'r gyfradd droseddu 25% yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae gan 20% yn llai o oedolion gymhwyster lefel 3 na chyfartaledd Cymru. Nid oes gan 25% o oedolion unrhyw gymwysterau o'i gymharu â chyfartaledd Cymru.

Roedd yr gynhadledd yn fan cychwyn ar gyfer yr hyn a fydd yn broses hir ac anodd i wella sut mae pethau heddiw. Dros y blynyddoedd mae llawer wedi'i addo eto, cyn lleied sydd wedi'i gyflawni.

Mae hyn wedi arwain at amheuaeth enfawr gan y gymuned leol. Fodd bynnag, ein huchelgais yw, trwy weithio gyda sefydliadau fel Place Matters a Right to Succeed, y gallwn lwyddo yn ein huchelgeisiau dros amser, a byddwn yn gwneud hyn drwy gymryd lleisiau pobl y Rhyl gyda ni. Byddant yn siarad a byddwn ni'n gwrando a gyda'n gilydd gallwn wneud i bethau ddigwydd drwy newid sy'n seiliedig ar le.

Diolch yn fawr.

**Peter Neumark LVO, Cadeirydd The Neumark Foundation**



Roeddem i gyd eisiau sicrhau nad oedd Eich Llais Chi, Eich Rhyl yn ddigwyddiad ymgynghori arall, ond yn hytrach yn gyfle i wrando mewn ffordd wahanol, gan alluogi pobl i weithio ochr yn ochr i greu newid hirdymor a pharhaol yn y Rhyl.

Diolch o galon i bawb a ymunodd â ni yn y Rhyl ar y diwrnod hwnnw ac a wnaeth hi'n bosibl inni ddechrau ar y daith hon.

Clywsom leisiau o'r gymuned a'r hyn sy'n wirioneddol bwysig iddynt; cawsom ein hysbrydoli gan straeon o newid o rannau eraill o'r DU; a chlywsom gan gyllidwyr, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a wnaeth ymrwymo eu cefnogaeth.

Aethom i gyd adref y noson honno yn dychmygu'r hyn sy'n bosibl pan fydd cymunedau a phartneriaid yn dod ynghyd gydag un nod cyffredin, a phan gaiff y rhwystrau rydym i gyd yn eu hwynebu yn cael eu chwalu.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi llwyfan i ni gymryd y cam nesaf a throi'r gobaith hwnnw yn realiti. Mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn hynod falch o weithio gyda The Neumark Foundation a'n partneriaid eraill i greu'r cyfle hwn i wrando a chysylltu.

Yn awr, mae'r camau nesaf yn perthyn i bobl y Rhyl, a fydd yn arwain ac yn siapio sut mae'r gwaith hwn yn symud ymlaen, wedi'u cryfhau gan y gefnogaeth a glywsant gan gyllidwyr a llywodraethau.

Byddwn ni yn Sefydliad Cymunedol Cymru yma i gefnogi ym mha bynnag ffordd y gallwn – boed hynny drwy ddod â chyllidwyr a rhoddwyr at ei gilydd, drwy waith ein rhaglenni grantiau lleol, neu drwy rannu ein harbenigedd ym maes dyngarwch a chronfeydd gwaddol.

Fy ngobaith yw bod yr adroddiad hwn nid yn unig yn dod a stori'r digwyddiad Eich Llai, Eich Rhyl yn fyw, ond hefyd yn creu cyfle i gyflawni newid ystyrlon a pharhaol.

Diolch o galon

**Judi Rhys MBE, Cadeirydd Sefydliad Cymunedol Cymru**

# Cynnwys

1. Pam Eich Llais, Eich Rhyl?

4. Adeiladu Clymblaid Gymwynasgar

11. Y Ffordd Ymlaen

13. Argraffiadau i Gloi

# Pam Eich Llais, Eich Rhyl?

Tref arfordirol fywiog yn Sir Ddinbych yw'r Rhyl gyda phoblogaeth o tua 27,000 o bobl, ac mae'n gartref i gymuned amrywiol sy'n cynnwys cyfran uwch o deuluoedd ifanc na'r cyfartaledd yng Nghymru, gyda dros un ym mhob pump o'r trigolion dan 16 oed. Mae'r dref yn wynebu heriau sylweddol go iawn: mae 35% o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol, ac yn y gorffennol, mae rhai wardiau wedi bod ymhlith ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Eto i gyd, dim ond rhan o stori'r Rhyl y mae'r ystadegau hyn yn eu hadrodd. Dyma gymuned sydd â  gwreiddiau dwfn, cysylltiadau cryf, a lleisiau sy'n haeddu cael eu clywed. Mae gan drigolion y Rhyl fewnwelediad amhrisiadwy sy'n deillio o brofiadau bywyd, ac mae eu safbwyntiau ar y materion sy'n effeithio ar eu tref yn hollbwysig i ddeall sut gall gwasanaethau, cymorth a chyfleoedd ddiwallu eu hanghenion yn well.




Cafodd gweledigaeth Eich Llais, Eich Rhyl ei chreu i ddod â'r gymuned at ei gilydd ar adeg o heriau a chyfleoedd. Deilliodd o gyfres o sgyrsiau gyda thrigolion, grwpiau cymunedol sy'n gweithio i gefnogi pobl leol, cyllidwyr a chynrychiolwyr awdurdodau lleol, a soniodd nifer ohonyn nhw am eu rhwystredigaethau, gan gydnabod bod cynnydd i wella'r ardal yn araf, bod y byd wedi symud ymlaen ac nad yw'r hen ffyrdd o 'adnewyddu' yn berthnasol mwyach. Teimlwyd yn eang bod penderfyniadau am y Rhyl yn aml yn cael eu gwneud rhywle arall, a bod  buddsoddiad wedi methu â chyrraedd y bobl y bwriadwyd eu gwasanaethu.

Fe wnaeth y digwyddiad Eich Llais, Eich Rhyl ddechrau Hydref 2025 gynnig ffordd newydd ymlaen, un sy’n seiliedig ar gyd-gynllunio, cydweithio a gwrando. Cafodd ei drefnu gan Sefydliad  Neumark, mudiad elusennol sy'n cefnogi mudiadau ar draws Gogledd Cymru i gael effaith bositif hirdymor ar lesiant ac ansawdd bywyd plant a phobl ifanc a’r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, elusen sy'n gweithio ar draws Cymru i gysylltu pobl a busnesau sydd â diddordeb dyngarol â grwpiau cymunedol ac elusennau ar lawr gwlad sy'n gweithio i wella bywydau pobl leol. Cynhaliwyd y digwyddiad mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Roedd lleisiau pobl ifanc wrth wraidd y digwyddiad hwn, ein cenhedlaeth nesaf. Fe wnaeth profiadau dros 500 o drigolion ifanc a gymerodd ran yn Ymgynghoriad Pobl Ifanc BRHYLiant, a gynhaliwyd yn ystod yr haf, ochr yn ochr â'r ffilm ieuenctid bwerus a ddangoswyd yn y digwyddiad, osod y naws ar gyfer y diwrnod.

Roedd eu neges yn glir: maen nhw’n caru’r Rhyl, ei hysbryd cymunedol, a'i photensial, ond maen nhw eisiau mannau mwy diogel, mwy o gyfleoedd, a rôl go iawn wrth siapio dyfodol y dref.

> *Rydyn ni eisiau aros yn y Rhyl.*
> *Rydyn ni eisiau gweld dyfodol yma.*
>
> Person ifanc,
> Adroddiad Ymchwil BRHYLiant

Yn y digwyddiad, daeth dros gant o bobl at ei gilydd, gan gynnwys trigolion lleol hen ac ifanc, arweinwyr cymunedol, addysgwyr, yr heddlu, cynghorwyr, elusennau, busnesau lleol, cyllidwyr, cynrychiolwyr Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ac arbenigwyr mewn newid sy'n seiliedig ar leoedd. Mae'r adroddiad hwn yn crisialu’r lleisiau cymunedol hynny, gan rannu'r doethineb, y pryderon, y gobeithion a'r atebion a ddaeth i'r amlwg pan wnaethon ni gymryd yr amser i wrando.

*Roedd yn ddiwrnod llawn egni, brwdfrydedd a momentwm gwych. Ynghyd â'r amrywiaeth drawiadol o bobl hynod frwd a fynychodd, o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, mae hyn ynddo'i hun yn rhoi rheswm dros optimistiaeth ynglŷn ag uchelgais hynod o bwysig Eich Llais, Eich Rhyl. Dim ond gydag ymdrech ar y cyd y daw llwyddiant, wedi'i gynnal dros y tymor hir a'i arwain gan y gymuned ei hun. Nid yw'r dasg yn hawdd ond mae'r gonestrwydd, yr awydd a'r penderfyniad a oedd yn amlwg yn y digwyddiad lansio wedi rhoi dechrau addawol, heb os.*

Nick Wright,
Effaith Gymdeithasol a Dyngarwch UBS










# Adeiladu Clymblaid Gymwynasgar

Gweledigaeth dan arweiniad y gymuned ar gyfer adnewyddu hirdymor ac arweinyddiaeth gyffredin.

## Pam Rhyl, pam nawr?

Mae'r Rhyl yn dref hynod o wydn. Mae wedi wynebu degawdau o newid economaidd a chymdeithasol, eto mae'n parhau i fod yn lle o gynhesrwydd, o greadigrwydd, ac o berthyn. Ym mhob sgwrs yn Eich Llais, Eich Rhyl, cafodd un neges ei chyfleu'n glir: cryfder mwyaf y Rhyl yw ei phobl.

Rydyn ni wedi clywed yn glir gan drigolion y Rhyl, am gyfnod rhy hir, bod adfywio wedi bod yn rhywbeth sydd wedi cael ei wneud i'r Rhyl, ond heb gael ei arwain gan y Rhyl. Mae prosiectau wedi mynd a dod, gan addo trawsnewidiad yn aml, ond heb adael fawr o newid parhaol.

Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddwyd y byddai'r Rhyl yn derbyn £20 miliwn o fuddsoddiad fel rhan o agenda 'ffyniant bro' Llywodraeth y DU. Yn aml, roedd adroddiadau newyddion yn disgrifio'r ardal fel un a 'adawyd ar ôl', ac yn 2023, bu'n destun adolygiad llym yn y Telegraph, a chafodd ei henwi ymhlith y cyrchfannau glan môr 'gwaethaf' yn y wlad. Rhoddodd y cyhoeddiad sgôr gwael  o 5/100 i'r dref, gan ddadlau bod ymdrechion i wneud y Rhyl yn 'gyrchfan dymunol' wedi methu'n lân.

Mae Bwrdd Cymdogaeth y Rhyl yn gweithio i greu gweledigaeth 10 mlynedd ochr yn ochr â chynllun buddsoddi 4 blynedd i ddangos sut bydd yn dosbarthu'r £20 miliwn o gyllid cyfalaf a refeniw i'r Rhyl, a'i gwneud yn lle llawn cymeriad a chyfleoedd am genedlaethau i ddod.

Mae gweledigaeth Eich Llais, Eich Rhyl ar wahân ac wedi'i datblygu'n annibynnol. Er na fydd yn ceisio cyflawni na dilyn agenda Bwrdd Cymdogaeth y Rhyl, bydd yn gweithio mewn ffordd sy'n gydnaws, yn anghystadleuol, ac yn agored i gydweithio lle bo'n briodol. Roedd y digwyddiad yn gyfle i wrando ar leisiau pobl leol, i glywed wrth y rhai sydd wedi rheoli prosiectau llwyddiannus sy'n seiliedig ar leoedd mewn ardaloedd eraill ac i wneud cynllun ar gyfer y dyfodol, ac i greu mudiad, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd, un cam ar y tro.

Mae'r adroddiad hwn yn crisialu llais y mudiad hwnnw. Mae'n fyfyrdod ac yn wahoddiad: cyfle i droi egni Eich Llais, Eich Rhyl i fod yn glymbaid gymwynasgar, partneriaeth bwerus o breswylwyr, arweinwyr lleol, busnesau lleol, grwpiau cymunedol a chyllidwyr sy'n barod i gyd-greu dyfodol y Rhyl. Rydyn ni'n credu y bydd y Rhyl yn dref arfordirol fywiog sydd wedi'i diffinio gan gyfleoedd, creadigrwydd a llesiant, lle gall pobl ifanc weld dyfodol iddyn nhw eu hunain, lle mae teuluoedd yn teimlo'n ddiogel, a lle mae balchder lleol i'w weld ar bob stryd.

*Roedd hi'n wych gweld cymaint o bwrpas ac ymrwymiad cyffredin tuag at blant a phobl ifanc y Rhyl yn canolbwyntio ar feithrin ymddiriedaeth ar gyfer newid hirdymor; i sicrhau bod tegwch a chyfleoedd i bawb ffynnu.*

Nina Ruddle,
Pennaeth Ymgysylltiad Polisi Cyhoeddus,
Prifysgol Wrecsam



## Beth glywsom ni

Dechreuodd y diwrnod gyda'n prif siaradwyr, Prif Weinidog Cymru Eluned Morgan AS a'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Swyddfa Cymru, Claire Hughes AS. Siaradodd y ddwy yn angerddol am gryfder y gymuned leol, am bwysigrwydd dyngarwch lleol a'r angen i rymuso pobl ifanc i aros yn lleol ac i fod y gorau y gallan nhw fod, beth bynnag fydd ffurf hynny.




Yna rhannwyd ffilm a wnaed gan bobl ifanc Brighter Futures, elusen fach leol sy'n cefnogi llesiant pobl leol. Yna clywsom gan sawl arweinydd o leoliadau ieuenctid ac addysg, llywodraeth leol a rhoi dyngarol ac yna trafodaeth ford gron ar ble mae'r egni/momentwm ar hyn o bryd a beth allai fod ei angen i'w gymryd i'r lefel nesaf.

Er mwyn helpu i ehangu gorwelion ac i ysbrydoli, clywsom wrth Graeme Duncan, Sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol Right to Succeed, a Nicky Twemlow, sylfaenydd Made in Stoke, a rannodd fodelau llwyddiannus ond gwahanol iawn o gyllido sy'n seiliedig ar leoedd, gan rannu heriau a llwyddiannau pob model. Mae'r model Right to Succeed yn canolbwyntio i raddau helaeth ar blant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uchel, gyda'r nod o gynyddu eu cyfleoedd yn y dyfodol. Roedd rhaglen cymuned yn Birkenhead yn rhannu nifer o bethau tebyg i'r Rhyl.

Mae’r model Made in Stoke yn un sy'n seiliedig ar y gymuned gyfan, gan harneisio pŵer dyngarwch yn yr ystyr ehangaf i annog pobl sydd wedi'u geni, eu magu neu sy'n gysylltiedig â Stoke i ddod at ein gilydd, i ailgysylltu ac i roi nôl mewn rhyw ffordd, boed hynny'n gyfraniad creadigol, amser neu ariannol. Unwaith eto, syniad a oedd yn taro tant gydag ymdeimlad dwfn o falchder a theyrngarwch sy’n cael eu teimlo gan bobl y Rhyl a’r rhai sydd ar wasgar, sydd wedi cael ei grybwyll o'r blaen.

Roedd yr egni yn yr ystafell drwy gydol y dydd yn amlwg. Roedd y trafodaethau'n fywiog, roedd syniadau'n llifo a bron y gallech chi deimlo’r momentwm yn newid. Gyda'n gilydd, fe wnaethon ni wrando, rhannu, a dychmygu sut fyddai’r adnewyddu pe bai'n cael ei arwain o fewn y gymuned.

> *Daeth yr awyrgylch hwn â phŵer ei hun i'r diwrnod gyda chynulleidfa amrywiol, gan gynnwys nifer o grwpiau cymunedol lleol a ddywedodd, er syndod i rai, y bydden nhw’n cydweithio i sicrhau'r newid hwn. Roedd pawb yn yr ystafell yn gyfartal ac yn cael eu parchu'n gyfartal, a dyna sut dylai pethau fod bob amser, ond anaml iawn y mae’n cael ei gyflawni.*
>
> Rhiannon Hughes,
> Wicked Wales Films y Rhyl






## Daeth sawl thema bwerus i'r amlwg

### Tlodi Dyheadau ac Addysg

Soniodd nifer am y cysylltiad dwfn rhwng dyheadau, hyder a chyfleoedd. Mae pobl ifanc eisiau bod yn falch o'r Rhyl, ond mae angen iddyn nhw weld llwybrau gweladwy i godi dyheadau mewn addysg, sgiliau, gwaith a chyfleoedd hyfforddi yn lleol. Mae llythrennedd isel a chyfleoedd prin wedi dod yn rhwystrau i gyflawni.

### Cyllid Hirdymor a Chapasiti Lleol

Ni all prosiectau byr dymor ddatrys heriau hirdymor. Cytunodd cyllidwyr a mudiadau cymunedol fod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y Rhyl yn ymrwymiad 10-15 mlynedd, gyda buddsoddiad hyblyg ac amyneddgar sy'n meithrin capasiti lleol, nid dibyniaeth. Mae hyn yn golygu ariannu'r "meinwe gysylltiol", y bobl a'r strwythurau sy'n gwneud cydweithio'n bosib.

### Balchder mewn Lleoedd a Phobl

Mae yna falchder yn y Rhyl, ond nid yw wastad yn cael ei weld. Mae pobl ifanc eisiau llwyddiannau sy'n weladwy, yn gyraeddadwy: lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â chyffuriau ac alcohol, strydoedd glanach, mannau mwy diogel, lleoliadau cymunedol sy'n teimlo'n groesawgar ac yn fforddiadwy. Maen nhw eisiau adrodd stori newydd am y Rhyl sy'n cael ei diffinio gan bositifrwydd yn hytrach nag amddifadedd.

### Cydweithio ac Uchelgais Gyffredin

Fe glywsom fod mwy o bartneriaethau nawr nag oedd ddegawd yn ôl, ond mae gwasanaethau'n parhau i fod yn dameidiog ac wedi'u gorlethu. Galwodd cyfranogwyr am weithio cydgysylltiedig a diwylliant o fod yn agored, lle mae mudiadau'n cydweithio yn hytrach na chystadlu. Bydd dyfodol y Rhyl yn dibynnu ar ba mor dda mae ei phobl yn teimlo eu bod wedi'u hannog, wedi'u galluogi a'u harfogi i fod y rhai sy'n creu newid.

### Gonestrwydd Radical a Chyfrifoldeb Cyffredin

Dim ond drwy onestrwydd ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio, yr hyn sydd ddim, a lle mae angen symud pŵer y daw cynnydd. Dangosodd y digwyddiad fod gan y Rhyl y dewrder am sgyrsiau anodd. Mae pobl eisiau bod yn rhan o bethau, nid fel rhanddeiliaid mewn ymgynghoriad, ond fel arweinwyr, cydweithwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau yn eu tref eu hunain.

## Gwneud Synnwyr o Bethau: Parodrwydd i Newid

Roedd yr egni yn yr ystafell yn adlewyrchu parodrwydd dwfn i newid ac roedd pobl yn cydnabod bod y Rhyl yn bodloni nifer o'r amodau sydd eu hangen i ddechrau trawsnewidiad hirdymor, sy'n seiliedig ar leoedd:

- **Angen uchel:** Gorllewin y Rhyl yw'r ward fwyaf difreintiedig yng Nghymru, eto i gyd, mae'n gyfoethog o ran asedau cymunedol.
- **ConsenswS ar flaenoriaethau:** cafodd dyhead, addysg a chyflogaeth, diogelwch, a balchder eu henwi gan bawb.
- **Gweithio ar y cyd:** mae arweinwyr cymunedol, cyllidwyr, busnesau lleol a llywodraeth leol yn agored i atebolrwydd cyffredin.
- **Wedi'i lywio gan dystiolaeth:** bydd data, profiadau bywyd, a gwerthuso yn siapio penderfyniadau.
- **Potensial ariannu:** mae cyllidwyr mawr yn agored i fuddsoddiad cydweithredol.
- **Strwythur:** ceir dealltwriaeth bod angen strwythur, asgwrn cefn lleol sy'n cael ei ffurfio gan leisiau lleol, sy'n barod i ddod â phobl at ei gilydd, cyfathrebu'n agored a chynnal gweledigaeth gytûn.
- **Amser:** sylweddoli na fydd newid yn digwydd dros nos, neu i gyd ar yr un pryd.



## Adeiladu'r Glymblaid Gymwynasgar

Ni ddaw newid o un sefydliad na phrosiect unigol. Daw o glymblaid gymwynasgar, pobl a mudiadau sy'n credu bod yn rhaid adeiladu adnewyddiad y Rhyl o'r tu mewn, ac sy'n gallu  ymrwymo i'r canlynol:

- **Gwrando a dysgu** – rhoi lle canolog i brofiadau bywyd trigolion y Rhyl.
- **Cysylltu a chydlynu** – meithrin capasiti cymunedol drwy gynyddu cyfalaf cymdeithasol, cysylltu gweithredu cymunedol, cyllidwyr a'r awdurdod lleol mewn pwrpas cyffredin.
- **Hyrwyddo arweinyddiaeth leol** – grymuso sefydliadau, busnesau a grwpiau lleol i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth i ddatblygu cenhedlaeth newydd o arweinwyr cymunedol a dinesig unigol o bob oed.
- **Gweithio'n dryloyw** – rhannu cynnydd, hyrwyddo llwyddiant wrth fod yn onest am yr heriau, a gwneud penderfyniadau'n agored.
- **Modelu uchelgais gyffredin** - fel bod pobl y Rhyl yn siapio beth sy'n digwydd nesaf, ac nid rhoi sylwadau'n unig.
- **Cefnogi datblygiad sy'n seiliedig ar leoedd** - gweithio'n agos i rannu adnoddau, bod yn lle diogel i annog pobl i ddod â syniadau sy'n cefnogi uchelgais, gan feithrin cydweithio ar draws y sectorau.



> *Daeth Eich Llais, Eich Rhyl â rhanddeiliaid, arweinwyr cymunedol, a thrigolion at ei gilydd, nid yn unig i ddychmygu dyfodol disglair i bobl ifanc, ond i ddechrau ei adeiladu gyda'n gilydd - gyda dewrder, creadigrwydd a gobaith.*
>
> *Pan fydd cymuned yn uno mewn gweledigaeth gytûn ar gyfer ei bobl ifanc, mae newid yn peidio â bod yn freuddwyd ac yn dechrau troi'n fudiad. Mae'r Rhyl wedi dangos beth sy'n bosib pan fydd cred yn troi'n weithredu ar y cyd.*
>
> Shane Owen,
> Brighter Futures Rhyl

# Y Ffordd Ymlaen

Fe glywsom fod pobl leol eisiau cyd-ddylunio, cynllunio, cyfrannu, dylunio ac awdura beth sy'n dod nesaf. Mae’r model Right to Succeed yn amlinellu 'cyfnod darganfod', sef ymgynghori ac ymchwilio i ddarganfod beth sy'n gweithio'n dda, a beth sydd ddim. Cyfnod sy'n archwilio prosesau, i nodi dolenni sydd wedi torri yn y gadwyn; mae rhai ohonyn nhw’n aml yn hawdd eu datrys ac yn cael effaith uniongyrchol i leddfu rhwystredigaethau. Mae'n debygol y bydd y cyfnod hwn yn cymryd amser, fel arfer o leiaf 12 mis, a dylai lywio a chefnogi gweithredu a chyflawni’n barhaus. Byddai'r cyfnod hwn yn canolbwyntio ar ddeall y Rhyl, profi beth sy'n gweithio, a chreu'r amodau ar gyfer buddsoddiad hirdymor.

Fe glywsom sylwadau cryf gan y rhai yn yr ystafell, eu bod am gyd-ddylunio, cynllunio a siapio’r hyn sy'n dod nesaf, nid yn unig i gael rhywun yn ymgynghori â nhw, ond i gyfrannu fel awduron dyfodol y Rhyl.

Roedd cefnogaeth eang am gyfnod darganfod, fel y man cychwyn i adeiladu arno.



*Cyn hynny, roedd gen i rywfaint o amheuaeth am ba mor ystyrlon fyddai'r digwyddiad fel sgwrs, gan fy mod i wedi cael fy ngwahodd i nifer o ddigwyddiadau o'r fath gan fudiadau/cyrff eraill a oedd ond yn rhoi gwasanaeth gwefus i'r syniad o ymgynghori ystyrlon. Ond roedd y digwyddiad hwn yn teimlo'n wahanol, ar unwaith roedd yn teimlo fel pe bai eich syniadau a'ch meddyliau fel grŵp cymunedol yn cael eu gwerthfawrogi a'ch bod chi'n rhan wirioneddol o'r sgwrs.*

James McGuiness
Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl

## Camau allweddol nesaf

- Dechreuodd y syniad am Eich Llais, Eich Rhyl gyda **phobl ifanc**, mae'n hanfodol felly eu bod yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar y camau nesaf yn enwedig o ran yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Dylai'r bobl ifanc fod yn rhan allweddol o'r siwrnai hon.
- Sefydlu **cyfnod darganfod** - canolbwyntio ar wneud synnwyr ac effaith ar y cyd ar gyfer meithrin uchelgais gyffredin. Ystyriwch sut beth fyddai hynny mewn clymblaid gyda sawl rhanddeiliad.
- Nodi **hyrwyddwyr cymunedol**, partneriaid a chyllidwyr sy'n cyd-fynd â phwyslais y cyfnod Darganfod hwn.
- Sicrhau **cyllid darganfod** - gan alluogi tîm bach Eich Llais, Eich Rhyl i gael ei leoli yn y Rhyl.
- Adeiladu **sylfaen dystiolaeth gyffredin** – cyfuno data â phrofiadau bywyd i lywio blaenoriaethau.







*Roedd yn wych gweld ystod mor eang o gydweithwyr ar draws pob sector yn dod at ei gilydd ar y diwrnod. Roedd yr egni, y brwdfrydedd a'r ymrwymiad diwyro i oresgyn heriau a chyd-gynllunio dyfodol mwy disglair i'r Rhyl yn amlwg i bawb. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at glywed beth sy'n digwydd nesaf.*

Paul O'Neill,
Cyfarwyddwr Datblygu,
Steve Morgan Foundation

# Argraffiadau i Gloi

Roedd y digwyddiad Eich Llais, Eich Rhyl yn llwyddiant mawr ac yn drobwynt, cydnabyddiaeth gyffredin bod yr atebion i heriau'r dref eisoes yn bodoli yn ei phobl. Yn bwysicaf oll, ei phobl ifanc, y genhedlaeth nesaf sydd â'r diddordeb mwyaf yn nyfodol y Rhyl. Mae'n rhaid i ni roi'r sgiliau a'r adnoddau iddyn nhw ac ymddiried ynddyn nhw i siapio'r Rhyl maen nhw eisiau byw a gweithio ynddi a bod yn falch o'u cymuned.

Mae stori'r Rhyl yn dal i gael ei hysgrifennu. Dangosodd y digwyddiad Eich Llais, Eich Rhyl fod pobl yn barod i arwain, a chyllidwyr yn barod i wrando. Bydd dyfodol y Rhyl yn cael ei fesur nid yn unig mewn adeiladau neu brosiectau, ond mewn hyder, cysylltiadau a chyfleoedd. Mae'n dechrau gyda chred gyffredin, mai'r bobl sy'n nabod y dref orau yw'r rhai sy'n gallu ei thrawsnewid.

Gadewch i ni weithio ochr yn ochr â nhw i gefnogi ac i rymuso newid o dan arweiniad y gymuned. Gyda'n gilydd, gallwn symud ymlaen â'r momentwm, yr angerdd a'r cyffro a welwyd yn y digwyddiad Eich Llais, Eich Rhyl i adeiladu Rhyl sy'n fywiog ac yn ffyniannus, gyda chymuned hapus, iach a llewyrchus sy'n parhau i fod yn falch o ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ond gyda phenderfyniad ac awydd ychwanegol am dwf cynaliadwy hirdymor.

Mae'r Rhyl yn barod... ydych chi?






# Diolch i'r partneriaid a chefnogwyr digwyddiad canlynol

BRIGHTER FUTURES

Sefydliad Cymunedol Cymru

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

THE neumark FOUNDATION

place matters

RIGHT TO SUCCEED

Rhyl & District RFC

Steve Morgan FOUNDATION

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

Llywodraeth Cymru
Welsh Government